CIWB

**Tasg 1**

# Dillad smart

1. Gwyliwch y clip eto ac atebwch y cwestiynau yma:

   a. Pa liw ydy'r crys T?

   b. Pa liwiau eraill sy ar gael?

   c. Faint ydy'r crys T?

   ch. Pa liw ydy'r siorts?

   d. Pa faint ydy'r siorts?

   dd. Faint ydy'r siorts?

   e. Pa liw ydy'r siaced?

   f. Faint ydy'r siaced?

   ff. Faint ydy pris y tair eitem? (Cofiwch, mae disgownt o 12%.)

2. Mae'r cyflwynydd yn defnyddio llawer o ansoddeiriau i ddisgrifio'r dillad? Rhestrwch y geiriau yma.

Y crys T:

Y siorts:

Y siaced:

3. Cymharwch eich rhestr chi gyda rhestr eich partner chi.

4. Meddyliwch am ansoddeiriau eraill i ddisgrifio dillad. Ysgrifennwch nhw yn eich llyfrau.

5. Cymharwch eich rhestr chi gyda rhestr eich partner chi.

6. **Gwaith grŵp**

Rydych chi'n gweithio i sianel gwerthu ar y teledu.

Dewch â 3 eitem o ddillad i'r wers Gymraeg nesaf.
Rydych chi'n mynd i werthu'r dillad ar y sianel.

Ysgrifennwch ddisgrifiad o'r dillad:
Dwedwch bethau da am y dillad.
Defnyddiwch ansoddeiriau da.
Oes lliwiau eraill ar gael?
Pa faint ydy'r dillad – **bach**, **canolig** neu **mawr**?
Meddyliwch am bris hefyd. Cofiwch roi disgownt i bobl sy eisiau prynu'r 3 eitem.

Ceisiwch werthu'r dillad ar eich sianel gwerthu.
Ffilmiwch eich gilydd yn gwerthu'r dillad.

| Geirfa | | | |
|---|---|---|---|
| ar gael | available | ar gael | available |
| cyflwynydd | presenter | pa faint | what size |
| ansoddeiriau | adjectives | sy eisiau | who want |
| gwerthu | to sell | eich gilydd | each other |